# Cyfarfod y Pwyllgor Deddfau

## Cofnodion (LEG(2)-09-07):

### Dyddiad y Cyfarfod: 20 Mawrth 2007
### Amser y Cyfarfod: 9:30 am
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

**Aelodau Cynulliad yn Bresennol:**

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

**Swyddogion**

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am Absenoldeb: Dr Dai Lloyd, Christine Gwyther**

**Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-08-07**

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2007.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd unrhyw eitemau i'w nodi, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud ymlaen i drafod deddfwriaeth.

**Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

4.1 LC1493 – Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007

Hysbysodd y Cynghorydd Cyfreithiol yr Aelodau fod angen dileu paragraff 5 a 6 o'r adroddiad am ei fod yn fodlon bod y cyfreithwyr a ddrafftiodd y Gorchymyn wedi ystyried y pwyntiau. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol fel y'i diwygiwyd.

4.2 LC1505 – Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2007

Hysbysodd y Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol yr Aelodau er bod testun Saesneg yr adroddiad yn gywir, fod angen dileu un paragraff o'r fersiwn Cymraeg. Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol fel y'i diwygiwyd.

4.3 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1494- The Firefighters' Compensation Scheme (Wales) Order 2007

LC1495 - The Firefighters' Pension (Wales) Scheme (Amendment) Order 2007

LC1496 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2007

LC1497 - Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2007

LC1498 - Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007

LC1499 - Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) (Diwygio) 2007

LC1500 - Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2007

LC1501 - Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007

LC1503 - Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Ynys Môn) 2007

LC1504 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Taliadau i Bersonau sy’n darparu Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2007

LC1506 - Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Diwygio) 2007

LC1507 - Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007

LC1508 - Rheoliadau Tocio Cynffonnau Cwn Gwaith (Cymru) 2007

LC1509 - Rheoliadau Anffurfio (Triniaethau a Ganiateir) (Cymru) 2007

LC1510 - Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

LC1511 - Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007

LC1512 - Gorchymyn Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007

LC1513 - Rheoliadau'r Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007

### Camau i’w Cymryd

Nid oedd unrhyw gamau i’w cymryd

### Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Nododd y Cadeirydd mai cyfarfod olaf y Pwyllgor Deddfau oedd y cyfarfod heddiw a diolchodd i’r Aelodau, tîm gweinyddol y Pwyllgor a’r Cynghorwyr Cyfreithiol am eu cyfraniad i’r Pwyllgor, yn cynnwys y gwaith ar ddiwygio’r broses o graffu ar is-ddeddfwriaeth a fu’n gymorth gyda gwaith y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog ac a fydd yn ffurfio’r sail ar gyfer dyfodol y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

5.2 Cymeradwyodd yr Aelodau’r ffordd effeithiol y cadeiriwyd y Pwyllgor.